# FTWW

## Adroddiad Effaith Blynyddol 2024-2025

# Cynnwys

Cynnwys ........ 2
Datganiad y Cadeirydd ........ 3
Gwybodaeth Sefydliadol ........ 4
Gweithgareddau a Chyflawniadau ........ 6
Adroddiad y Trysorydd 2024-25 ........ 16
Datganiad Ariannol a Chyfrifon ........ 17
Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol ........ 20



# Datganiad y Cadeirydd

Gyda balchder mawr yr ydym yn cyflwyno ein Hadroddiad Effaith Blynyddol 2024–2025, sy'n adlewyrchu ymrwymiad Triniaeth Deg i Fenywod Cymru i degwch iechyd a newid systemig.

Roedd eleni yn foment hollbwysig ym maes iechyd menywod yng Nghymru. Fe wnaethon ni gyfrannu'n helaeth at ddatblygiad Cynllun Iechyd Menywod y GIG, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac rydym bellach yn cefnogi'i weithredu, a hynny fel cadeirydd Cynghrair Iechyd Menywod Cymru lle rydym yn sicrhau bod lleisiau'r trydydd sector yn llywio polisi ac yn helpu i lunio gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion iechyd cyfannol ar draws cwrs bywyd.

Ar draws ymchwil ac addysg, mae FTWW wedi hyrwyddo cydgynhyrchu fel safon, gan gefnogi astudiaethau ar endometriosis, y menopos, niwroamrywiaeth, a chyflyrau hirdymor. Mae partneriaethau â phrifysgolion, byrddau iechyd, ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ein gosod fel cydweithiwr dibynadwy wrth lunio'r Ganolfan Ymchwil Iechyd Menywod sy'n dod i'r amlwg, gan drawsnewid y sylfaen dystiolaeth ar gyfer iechyd menywod yng Nghymru.

Roedd yn anrhydedd i ni dderbyn cydnabyddiaeth genedlaethol fel y Sefydliad Bach Mwyaf Dylanwadol yng Ngwobrau Elusennau Cymru, tystiolaeth o eiriolaeth ar lawr gwlad ac ymroddiad ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr ac aelodau. Wrth i'n dylanwad dyfu, mae ein tîm hefyd wedi tyfu: diolch i'n harianwyr, rydym wedi gallu ehangu ein capasiti gyda dwy rôl newydd, gan helpu i gyflawni prosiectau sy'n grymuso menywod ac yn chwyddo eu lleisiau wrth gryfhau ein gallu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd croestoriadol a sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt fwyaf yn llunio atebion.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn llawn cyffro i ddyfnhau partneriaethau ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau eraill, a'n haelodaeth gynyddol. Gyda'n gilydd byddwn yn ymdrechu i sicrhau dyfodol lle mae iechyd menywod yn cael ei flaenoriaethu, ei ddeall, ac yn derbyn adnoddau digonol, lle mae pob llais yn bwysig a lle mae rhwystrau'n cael eu dymchwel.

Ar ran y Bwrdd, diolch o galon i'n haelodau, ein partneriaid a'n cefnogwyr. Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu Cymru lle mae tegwch iechyd yn realiti.



Willow Holloway
Cadeirydd, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru

# Gwybodaeth Sefydliadol

## Triniaeth Deg i Fenywod Cymru

Rhif elusen: 1191069

### Cyfeiriad

| **Hyd at 31ain Awst 2025:** | **O 1af Medi 2025 (cyfredol):** |
|---|---|
| FTWW<br>Canolfan Fusnes Plas Eirias<br>Ffordd Abergele<br>Bae Colwyn<br>LL29 8BF | FTWW<br>Blwch Post 96<br>M-Sparc<br>Gaerwen<br>LL60 6AG |

**Cenhadaeth FTWW yw dileu anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru i fenywod, merched, a phobl a neilltuwyd yn fenywaidd ar adeg eu geni.**

Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae hawl pawb i iechyd a llesiant da yn cael ei pharchu, a lle mae gofal iechyd yn hygyrch heb rwystrau.

Mae FTWW yn elusen a arweinir gan ddefnyddwyr ac yn sefydliad i bobl anabl sy'n bodoli i hyrwyddo iechyd, llesiant a chydraddoldeb, yn enwedig i fenywod a phobl a gofrestrwyd yn  fenywod ar adeg eu geni sydd wedi'u heffeithio gan broblemau a chyflyrau iechyd hirdymor, sydd yn aml yn anweledig.

Mae gweithgareddau ein helusen wedi'u cynllunio i wella polisi, ymarfer a phrofiadau cleifion sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant, a bywydau menywod ledled Cymru. Rydym yn cyflawni hyn drwy:

- **Polisi ac Eiriolaeth**
- **Ymchwil a Chydgynhyrchu**
- **Addysg a Hyfforddiant**
- **Ymgysylltu â'r Gymuned**
- **Partneriaethau a Chydweithrediadau Strategol**
- **Digwyddiadau a'r Cyfryngau**
- **Cyhoeddiadau, Ardystiadau, a Chyflwyniadau**
- **Ymatebion i Ymgynghoriadau**

Mae FTWW yn cyflawni ei amcanion drwy waith ein staff a chyfraniadau gan ein gwirfoddolwyr, gyda goruchwyliaeth gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

## Ymddiriedolwyr

<table>
<tr><td colspan="5">Cadeirydd – Willow Holloway</td><td colspan="5">Trysorydd – June Jeremy</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyd-Is-gadeirydd – Karen Lo</td><td colspan="5">Cyd-Is-gadeirydd – Liz Williams</td></tr>
<tr><td colspan="2">Alison Pritchard</td><td colspan="2">Kirsty Pringle</td><td colspan="2">Lucy Cone</td><td colspan="2">Jon Stevens</td><td colspan="2">Dee Dickens</td></tr>
<tr><td colspan="3">Julie Richards (hyd at fis Ebrill 2025)</td><td colspan="2">Clare Foster (hyd at fis Gorffennaf 2025)</td><td colspan="3">Cynghorydd Cleifion<br>Louise Evans</td><td colspan="2">Swyddog Cyllid<br>Tamira Rolls<br>(Gwirfoddolwr)</td></tr>
</table>

## Aelodau staff

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil** | Debbie Shaffer (bellach yn *Gyfarwyddwr yr Elusen*) |
| **Swyddog Ymgysylltu** | Dee Montague-Coast (bellach yn *Gydlynydd Ymgysylltu*) |
| **Cydlynydd Elusen** | Isabel Linton, o 1af Hydref 2024 (bellach *yn Rheolwr yr Elusen*) |
| **Cydlynydd Gwirfoddolwyr** | Rebecca Elley, 1af Hydref – Mawrth 31ain 2025 |

Mae'r elusen yn cael ei llywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys 11 aelod: Cadeirydd, dau Gyd-Is-gadeirydd, Trysorydd, a saith ymddiriedolwr arall. Mae'r bwrdd yn darparu goruchwyliaeth strategol, yn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith elusennau, ac yn cymeradwyo penderfyniadau pwysig megis cyllidebau, polisïau a chynlluniau hirdymor yn unol â chenhadaeth a rhwymedigaethau cyfreithiol yr elusen. Mae ein Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter, gydag is-bwyllgorau gan gynnwys Cyllid, a Pholisi, yn digwydd rhyngddynt. Ar gyfer materion brys rhwng cyfarfodydd y bwrdd, gall y Cadeirydd (neu'r Cyd-Is-gadeiryddion os nad yw'r Cadeirydd ar gael) wneud penderfyniadau dros dro, a gaiff eu cadarnhau'n ddiweddarach gan y bwrdd.

Cyfarwyddwr Elusen FTWW sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a hefyd gweithrediadau a chyflawni prosiectau. Mae rheolaeth llinell staff wedi'i dirprwyo i Reolwr yr Elusen, sy'n goruchwylio gweithgareddau o ddydd i ddydd ac yn rheoli'r ddau Gydlynydd, sy'n cyflawni prosiectau a gwasanaethau.

Caiff gwariant o ddydd i ddydd o fewn y gyllideb gymeradwy ei reoli gan Gyfarwyddwr yr Elusen a Rheolwr yr Elusen. Mae ein Swyddog Cyllid Gwirfoddol yn cefnogi'r Trysorydd, y Rheolwr a'r Cyfarwyddwr gydag adrodd ariannol a pharatoi cyllideb, gan helpu i sicrhau cywirdeb a thryloywder ar draws yr holl brosesau ariannol.

## Gweithgareddau a Chyflawniadau

**30+**
**Ymgysylltiadau Polisi**

**20+**
**Prosiectau Ymchwil**

**15+**
**Gweithgareddau Addysg a Hyfforddiant**

**20+**
**Grwpiau Ffocws wedi'u Cynnal**

**50+**
**Crybwylliadau yn y Cyfryngau**

**10+**
**Cydweithrediadau Strategol**

**Enillydd Gwobrau Elusennau Cymru:**

***★ Sefydliad Bach Mwyaf Dylanwadol ★***




**Tudalen Facebook: 2,353 o ddilynwyr** *(↑ o 2,192 y llynedd)*

**Grŵp Facebook: 1,994 o aelodau** *(↑ o 1,933 y llynedd)*

**Instagram: 1,839 o ddilynwyr** *(↑ o 1,711 y llynedd)*

**Rhestr Bostio: 660 o danysgrifwyr** *(↑ o 638 y llynedd)*

**12 Cylchlythyr a 5 Neges Bost** gyda **3730 achos o agor/darllen**

**Gwefan Newydd** [https://ftww.org.uk/](https://ftww.org.uk/) *(niferoedd ymwelwyr ar gael 2025-26)*

## Polisi ac Eiriolaeth



Mae FTWW wedi chwarae rhan allweddol wrth lunio polisi iechyd menywod yng Nghymru, yn fwyaf nodedig drwy ein cyfraniad at Gynllun Iechyd Menywod GIG Cymru, a lansiwyd ar 10 Rhagfyr, 2024, gyda'n hymdrechion eiriolaeth yn sicrhau bod lleisiau menywod yn llywio ei flaenoriaethau.

Y tu hwnt i'r cerrig milltir hyn, mae FTWW wedi cymryd rhan weithredol mewn mentrau i hyrwyddo cydraddoldeb a gwella canlyniadau iechyd. Fe wnaethon ni gefnogi datblygiad a chynhwysiant strategaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, *Darganfyddwch Eich Rôl*, cyfrannu at grwpiau cynghori fel Carreg Ateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb Arolygiaeth Iechyd Cymru, a chydweithio â BIPBC ar y rhaglen genedlaethol *Cael Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf* ar gyfer gynaecoleg. Fe wnaethon ni hefyd chwarae rhan flaenllaw yn Nhasglu Hawliau Anabledd Llywodraeth Cymru, gan gadeirio'r Grŵp Gwaith Iechyd a Llesiant, a chymryd rhan mewn fforymau Llywodraeth Cymru gan gynnwys y rhai ar Gydraddoldeb Rhywiol, Cydraddoldeb Anabledd, ac Urddas Mislif.




Estynnodd ein heiriolaeth i'r Senedd, gan gynnal Sesiwn Galw Heibio yn ystod Mis Gweithredu Endometriosis gydag Endometriosis UK, gweithredu fel cyd-ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Menywod, a chyfrannu at Grwpiau Trawsbleidiol eraill ar Anabledd, Menywod ac Atal Hunanladdiad.

Fel cadeirydd Cynghrair Iechyd Menywod Cymru y trydydd sector, fe wnaethom fynychu gweithgareddau allweddol fel lansio'r Cynllun Iechyd Menywod, hwyluso trafodaethau yn y Senedd, ac ymgysylltu â Rhwydwaith Clinigol Iechyd Menywod GIG Cymru. Eleni, croesawon ni aelodau newydd o'r gynghrair, gan gynnwys y Gynghrair Iechyd Meddwl Mamau, a HomeStart Cymru, gan gryfhau ein llais cyfunol dros iechyd menywod.



## Ymchwil a Chydgynhyrchu

Eleni, parhaodd FTWW â'n gwaith ym maes ymchwil a chydgynhyrchu, gan sicrhau bod lleisiau menywod yn parhau i fod yn ganolog i arloesedd ym maes iechyd a gofal. Un ffocws allweddol fu datblygiad parhaus Offeryn Adrodd Symptomau Endometriosis Cymru, sydd bellach wedi'i ledaenu'n eang ledled Cymru. Mae'n ymddangos ar GIG 111 A-Y Cymru, Llwybrau Iechyd Cymunedol GIG Cymru ar gyfer Gofal Sylfaenol, ac fe'i defnyddir gan Gydlynwyr Llesiant y Pelfis a Nyrsys Endometriosis, gan helpu i wella adrodd symptomau a gofal cleifion.




Rydym hefyd yn parhau i fod yn gyd-ymchwilwyr yn yr astudiaeth *Nid yw Poen Mislif Difrifol yn Normal* (SPPINN), a gwnaethom bartneru â Phrifysgolion Caerdydd, Abertawe, a Bangor i sefydlu Canolfan Ymchwil Iechyd Menywod Cymru, lle mae FTWW yn gwasanaethu fel arweinydd y trydydd sector ar gyfer Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chleifion (PPIE). Mae ein cyfraniad yn cwmpasu pedwar maes allweddol: PPIE, Symud Gwybodaeth, Rhwydweithio a Chydweithio, ac Arweinyddiaeth a Gweinyddiaeth, gan sicrhau bod blaenoriaethau ymchwil yn adlewyrchu profiad bywyd. Yn ogystal, fe wnaethom gymryd rhan yn nhreial clinigol ESTEEM ar HRT testosteron ac ymuno â Rhwydwaith Ymchwil Iechyd a Gweithgarwch Corfforol Menywod Cymru gyfan, gan ehangu effaith ein hymchwil ymhellach.

Mae cyfraniadau arwyddocaol eraill yn cynnwys cefnogi consortiwm Astudiaeth SUCCEED ar gyfathrebu ynghylch sgrinio serfigol gartref, cyflwyno yng Nghynhadledd Cydgynhyrchu Prifysgol Caerdydd, a chyflwyno sesiwn ar gydgynhyrchu mewn polisi ac ymarfer iechyd menywod yn Symposiwm Iechyd Menywod Prifysgol Abertawe. Fe wnaethon ni hefyd gynhyrchu fideo ar gydgynhyrchu mewn gofal endometriosis ar gyfer Cynhadledd Rhwydwaith Ymchwil Mislif, gan arddangos dulliau cynhwysol o ymchwilio. Mae cyfranogiad pellach yn cynnwys gwasanaethu ar Grŵp Llywio Partneriaeth Gosod Blaenoriaethau Cynghrair James Lind ar gyfer PCOS a chyfrannu at astudiaeth a ariannwyd gan Ymddiriedolaeth Wellcome dan arweiniad Dr Aimee Grant ym Mhrifysgol Abertawe ar Awtistiaeth: Mislif i'r Menopos.

Mae FTWW yn parhau i rymuso aelodau i ymgysylltu ag ymchwil trwy arolygon, fforymau a grwpiau ffocws. Er mwyn cryfhau cydweithio, rydym wedi datblygu proses i ymchwilwyr gysylltu â ni i gael cefnogaeth gyda phrosiectau, ceisiadau am gyllid, a recriwtio cyfranogwyr, gan sicrhau bod lleisiau menywod yn llywio ymchwil o'r cychwyn cyntaf i'r gweithredu.

## Addysg a Hyfforddiant



Mae FTWW wedi parhau i chwarae rhan allweddol wrth lunio addysg a hyfforddiant i wella profiadau iechyd a llesiant menywod ledled Cymru. Eleni, ochr yn ochr â'n hyrwyddwyr gwirfoddol, fe wnaethon ni weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i gydgynhyrchu modiwlau hyfforddi ar gyfer meddygon teulu ar Anhwylder Dysfforig Cyn-mislif (PMDD) ac endometriosis. Nod y modiwlau hyn yw cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol, gan sicrhau diagnosis cynharach a rheolaeth well o'r ddau gyflwr. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn datblygu hyfforddiant dan arweiniad cleifion ar gyfer clinigwyr sy'n cynnal hysterosgopi cleifion allanol, wedi'i gynllunio i wella ymarfer clinigol a phrofiadau cleifion.

Fe wnaethon ni gyfarfod â Chyfarwyddwr Meddygol Cwricwlwm Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i drafod canllawiau cwricwlwm, safonau proffesiynol, a chyfleoedd i ymgorffori blaenoriaethau iechyd menywod mewn hyfforddiant meddygon teulu ledled y DU. Fe wnaethon ni hefyd gyflwyno sesiynau hyfforddi ar gymorth i fusnesau ledled Cymru ar gyfer y menopos, gan helpu cyflogwyr i gefnogi staff drwy'r cyfnod bywyd hwn. Mae'r ymdrechion hyn yn adlewyrchu cenhadaeth barhaus FTWW i sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn cael eu llywio gan brofiad bywyd, gan wella canlyniadau i fenywod ledled Cymru.

## Ymgysylltu â'r Gymuned




Mae FTWW wedi parhau i flaenoriaethu ymgysylltu â'r gymuned, gan sicrhau bod profiad bywyd yn llywio polisi, ymchwil a darparu gwasanaethau ledled Cymru. Eleni, cynhaliwyd mwy nag 20 o grwpiau ffocws ar ystod eang o bynciau, gan ddarparu llwyfan i aelodau rannu eu mewnwelediadau a dylanwadu ar wneud penderfyniadau. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys trafodaethau ar broses *Gweithio i Wella* Llywodraeth Cymru ar gyfer codi cwynion neu bryderon ynghylch gofal neu driniaeth y GIG; profiadau cleifion lupus mewn cydweithrediad â LUPUS UK a Llais; a rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Senedd ar Anabledd a Chyflogaeth. Fe wnaethon ni hefyd gyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Ymgysylltu

Teuluol Amenedigol Llywodraeth Cymru a chasglu tystiolaeth ar anabledd a chyflogaeth ar gyfer Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y Senedd.

Cefnogodd ein grwpiau ffocws hefyd greu adnoddau ymarferol, fel pecyn cymorth 'Cefnogi Eraill a'u Helpu i Ymdopi' i aelodau ac ymwelwyr â'n gwefan, a chwarae rhan allweddol wrth gydgynhyrchu cynnwys ar gyfer Maniffesto 2026 FTWW sydd ar ddod, *Ein Hawl i Iechyd a Llesiant yng Nghymru*. Yn ogystal, fe wnaethom barhau i gyd-hwyluso Fforwm Lleisiau Gynaecoleg Gogledd Cymru, gan gryfhau ymgysylltiad a chydweithrediad lleol.



Y tu hwnt i grwpiau ffocws, mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru, fe wnaethom hwyluso hyfforddiant Model Cymdeithasol o Anabledd i staff a gwirfoddolwyr, cynnal dau weminar iechyd pelfig gyda *Fit Fanny Adams*, a chyd-gynnal gweminar gydag Endometriosis UK ar fyw gyda phoen pelfig. Fe wnaethon ni hefyd gynnal dau gyfarfod Sgwrs dros Baned – un ar-lein ac un wyneb yn wyneb – gan ddarparu mannau anffurfiol ar gyfer cysylltu a chefnogaeth. Ochr yn ochr â'r gweithgareddau hyn, fe wnaethom gynnal ymgysylltiad cryf trwy ein grŵp cymunedol ar-lein sy'n tyfu, cymorth e-bost, a chyfranogiad uniongyrchol mewn digwyddiadau ledled Cymru, gan sicrhau bod ein haelodau'n parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn.

## Partneriaethau a Chydweithrediadau Strategol

Eleni, bu FTWW yn gweithio'n agos gyda sefydliadau i fynd i'r afael â bylchau mewn gofal ar gyfer gynaecoleg, clefydau hunanimiwn, ac iechyd meddwl. Fe wnaethon ni bartneru ag Endometriosis UK, LUPUS UK, Mind Cymru, a GIG Cymru (gan gynnwys Rhwydweithiau Clinigol Iechyd Menywod a Chyhyrysgerbydol) i sicrhau bod menywod anabl a'r rhai â chyflyrau cronig yn cael eu clywed ar lefel genedlaethol.

NHS 111 Wales

Gwellodd ein cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gynnwys GIG 111 Cymru, gan wneud gwybodaeth iechyd yn fwy cywir a hygyrch. Rhwng Ebrill 2024 ac Ebrill 2025, gwelodd tudalennau a gynhyrchwyd ar y cyd ymgysylltiad cryf, gyda dros 2,500 o ymweliadau ar gyfer cynnwys PMS, 1,269 ar gyfer Endometriosis, a 316 ar gyfer Adenomyosis, tudalen newydd a ddeilliodd o ddeiseb lwyddiannus FTWW i'r Senedd.

Ar lefel y DU, cymerodd FTWW ran yn Nhasglu Gofal Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu'r DU, Grŵp Seneddol Trawsbleidiol Llywodraeth y DU ar Endometriosis, Bwrdd Crwn Cleifion y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a Fforwm Sector Gwirfoddol a Chymunedol NICE (Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal). Yng Nghymru, cyfrannom yn helaeth at fforymau fel Grŵp Cyfeirio Clinigol Iechyd Menywod GIG Cymru, Pwyllgor Gweithredol Cymru'r RCOG, a Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Gynaecoleg Cymru Gyfan, yn ogystal â grwpiau polisi fel Cynghrair Iechyd a Llesiant Cydffederasiwn GIG Cymru a Grŵp Cynllunio Iechyd a Gofal Cymdeithasol CGGC. Roedd cydweithio pellach yn cynnwys fforymau cydgynhyrchu Llywodraeth Cymru ar hawliau anabledd ac iechyd meddwl, ochr yn ochr â chryfhau partneriaethau ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod, ac eraill, gan sicrhau bod cydraddoldeb iechyd menywod yn parhau i fod yn flaenoriaeth ledled Cymru a'r DU.

## Digwyddiadau




Mynychodd staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr FTWW ddigwyddiadau allweddol ledled Cymru a'r DU i sicrhau bod iechyd a phrofiad bywyd menywod yn ganolog i'r trafodaethau. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd cyfrannu arbenigedd yn Nigwyddiad Iechyd Menywod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Cynhadledd Menopos Policy Insight Wales, a Gŵyl Everywoman yng Nghaerdydd, lle gwnaethom gyflwyniad ar Fibromyalgia a gweithdy ar 'Manteisio i'r eithaf ar eich apwyntiad meddygol', yn ogystal ag ateb cwestiynau yn ein stondin wybodaeth ym Mhabell Llesiant Sioe Fflint a Dinbych.

Chwaraeodd ein tîm ran weithredol yng nghynadledd *Materion Ymchwil* Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, rhoddodd gyflwyniad allweddol yng Nghynhadledd Iechyd Menywod Gogledd Cymru ar *'Iechyd Menywod: Profiad Bywyd a Phŵer Cydgynhyrchu i Fynd i'r Afael ag Annhegwch'*, a chyfrannodd at ddigwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Roedd cyfranogiad ychwanegol yn cynnwys y



digwyddiad *Llesiant Menywod yn y Gweithle*, lle FTWW oedd yr elusen enwebedig, a Digwyddiad Ymwybyddiaeth o Glefydau Prin Cymru. Ar draws y digwyddiadau hyn, fe wnaethon ni weithio i gynyddu dealltwriaeth, rhannu tystiolaethau cleifion, a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer i wella iechyd menywod yng Nghymru.

## Y Cyfryngau a Phroffil Cyhoeddus

Cafodd FTWW sylw mewn dros 50 o eitemau yn y cyfryngau, gan gynnwys y BBC, ITV, a'r wasg leol, gan godi ymwybyddiaeth yn sylweddol o annhegwch iechyd menywod a dylanwadu ar drafodaeth gyhoeddus. Cafodd ein gwelededd a'n heiriolaeth eu cydnabod pan enillon ni *Sefydliad Bach Mwyaf Dylanwadol* yng Ngwobrau Elusennau Cymru ym mis Tachwedd 2024.

Fe wnaeth ein gwaith yn y cyfryngau ehangu ar ymgyrchoedd a arweiniodd at welliannau pendant mewn iechyd a gofal yng Nghymru, gan gynnwys sylw i'n deiseb i ychwanegu adenomyosis at GIG 111 Cymru, a ymddangosodd ar ITV Cymru ac a arweiniodd at lwyddiant pan gafodd y cyflwr ei gydnabod yn swyddogol (GIG 111 Cymru). Yn ddiweddarach yn 2024, denodd lansiad Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru a chyfranogiad FTWW ynddo sylw eang ar draws y BBC, ITV, a Wales Online.







Roedd BBC Cymru a BBC Fyw wedi rhoi sylw i FTWW a'n haelodau (BBC News, BBC Cymru Fyw), gan dynnu sylw at restrau aros gynaecoleg a'r angen brys am ddiwygio. Yn y cyfamser, cafodd ein Offeryn Adrodd Symptomau Endometriosis Cymru, a gynhyrchwyd ar y cyd, sylw gan Woman's Hour ar BBC Radio 4, a chawsom sylw hefyd yn sylw Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar Astudiaeth SPPINN, gan roi llais i'r rhai sydd â phoen mislif difrifol.

Cyfrannodd FTWW at straeon am y rhwystrau y mae menywod anabl yn eu hwynebu (BBC News) a chost triniaeth ffrwythlondeb (BBC News). Fe wnaethon ni hefyd gymryd rhan mewn trafodaethau cenedlaethol ar gam-drin menywod yn y gweithle (South Wales Argus) a gwahaniaethu yn y gweithle (Nation.Cymru).

## Cyhoeddiadau, Ardystiadau, a Chyflwyniadau




Eleni, cyfrannodd FTWW at nifer o gyhoeddiadau a phapurau polisi dylanwadol, gan ymgorffori profiad bywyd mewn strategaethau cenedlaethol. Fe wnaethon ni gydysgrifennu adrannau allweddol o Gynllun Iechyd Menywod GIG Cymru ar *Ymchwil Iechyd Menywod* ac *Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd*, a rhoi mewnwelediadau ar gyfer y bennod ar Anghydraddoldebau Iechyd Rhywiol ar gyfer *Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2024* y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod. Roedd ein tystiolaeth yn amlwg iawn yn adroddiadau'r Senedd ar gyflyrau cronig a mynd i'r afael â'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl, a llywiodd asesiad Technoleg Iechyd Cymru o lawdriniaeth gynaecolegol anfalaen â chymorth robotig, gan lunio argymhellion ar gyfer ymchwil bellach.

Dyfynnwyd FTWW hefyd drwyddi draw yng Nghynllun Strategol Cyn-Genhedlu Gogledd Cymru BIPBC a chyfrannodd at bapur polisi Cydffederasiwn GIG Cymru, *Mae Popeth yn Effeithio ar Iechyd*, yn galw am gynllun trawslywodraethol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau iechyd. Cydnabuwyd ein heffaith ymhellach yn Adroddiad Blynyddol Rosa UK, a gyfeiriodd at ein prif araith yn nigwyddiad pen-blwydd Rosa yn 15 oed.

## Ymatebion i Ymgynghoriadau

Mae FTWW yn sicrhau bod lleisiau menywod yn llunio polisi drwy ymateb i ymgynghoriadau perthnasol ar lefelau cenedlaethol a'r DU. Eleni, fe wnaethon ni gyfrannu at ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y *Rheoliadau Asesu Effaith Iechyd*, *Fframwaith Byw gydag Arthritis a Chyflyrau MSK*, drafft y *Strategaeth 10 Mlynedd Iechyd Meddwl a Llesiant*, a'r *Datganiad Ansawdd Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol*, i enwi ond ychydig.

Fe wnaethon ni hefyd roi mewnbwn ar amrywiaeth o ganllawiau NICE, gan gynnwys *Endometriosis*; *Menopos*; *Asthma*, ac *Anghydraddoldebau Iechyd*, a chyflwyno tystiolaeth i ymgynghoriadau seneddol, gan gynnwys trafodaethau Pwyllgor Deisebau'r Senedd ar endometriosis a PMDD, deisebau a gyflwynwyd gan ddau o wirfoddolwyr FTWW, ac adolygiad y Senedd o ryddhau o'r ysbyty. Yn ogystal, fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ar hunan-samplu HPV, gan sicrhau bod safbwyntiau cleifion yn llywio polisi sgrinio.

## Strategaeth a Gweithrediadau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae FTWW wedi tyfu'n sylweddol fel sefydliad. Diolch i gyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, a chefnogaeth barhaus gan Sefydliad Waterloo, fe wnaethom benodi Cydlynydd Elusen amser llawn (Rheolwr yr Elusen bellach) a Chydlynydd Gwirfoddolwyr rhan-amser, gan ddyblu ein gallu i gyflawni cenhadaeth a nodau FTWW i bob pwrpas.

Fe wnaethon ni hefyd lansio ail-frandio llawn, gan gynnwys logo a gwefan newydd, gyda chefnogaeth Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol. Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom bartneru â'r arbenigwyr cyfathrebu cynhwysol, FOLK, a gweithio'n agos gyda'n haelodau trwy grwpiau ffocws ac ymchwil i ddatblygu canllaw cyfathrebu cynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i hygyrchedd.




Yn ogystal, fe wnaethom newid i swyddfa rithwir a pharhau i weithredu o bell, gyda staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr wedi'u lleoli ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru. Cynhelir cyfathrebu rheolaidd drwy e-bost, Microsoft Teams, a'n grŵp Facebook cymunedol ffyniannus, gan sicrhau cydweithrediad a chysylltiad cryf ar draws y sefydliad.

## Ein Cyllidwyr

Diolch o galon i'n harianwyr anhygoel, y mae eu cefnogaeth barhaus yn ein grymuso i gyrraedd mwy o bobl, a chreu newid parhaol.

**Adborth gan Ein Gwirfoddolwyr a'n Haelodau**

Diolch yn fawr iawn am eich gwaith caled. Rydych chi'n elusen anhygoel ac yn rhoi gobaith i mi!

Rydych chi'n gefnogol iawn o'r holl wirfoddolwyr, peidiwch â newid!

Rydw i bob amser yn gweld bod y sesiynau'n ddefnyddiol iawn ac mae pawb yn gefnogol iawn - mae FTWW wedi bod yn adnodd hanfodol i mi ac rydw i bob amser yn awyddus i gefnogi lle gallaf.

Dw i'n meddwl bod y cyfleoedd i roi adborth a chyfrannu mor werthfawr.

Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud!

Mor gymwynasgar a chefnogol, yn gwneud i mi deimlo fy mod i'n cael fy ngweld a'm dilysu, rhywbeth rwy'n ddiolchgar iawn amdano.

Rwyf mor ddiolchgar i FTWW am fy helpu a'm cefnogi yn ystod y menopos.

Roedd hyn yn ddefnyddiol iawn i mi. Teimlais fod pobl yn gwrando arnaf a bod gwerth i'm meddyliau, ac y gallent helpu i wella'r sefyllfa i fenywod eraill. Rwy'n gweld FTWW mor gefnogol ac rwyf mor ddiolchgar am y gymuned.

# Adroddiad y Trysorydd 2024-25



Rwy'n falch o allu adrodd bod FTWW wedi cael blwyddyn lwyddiannus yn rheoli sefydlogrwydd ariannol yn ystod 24-25 gyda rhywfaint o gyllid wedi'i ymestyn i ganol 2026 gan ganiatáu i staff newydd gael eu recriwtio i helpu gyda'r llwyth gwaith sy'n cynyddu'n barhaus.

Mae Grant Loteri a ddyfarnwyd ar gyfer y cyfnod 2024-26 wedi galluogi cyflogi Rheolwr Elusen a chyflog rhannol i'r Cydlynydd Gwirfoddolwyr ynghyd â threuliau gwirfoddolwyr, costau technoleg a ffioedd angenrheidiol eraill yr aed iddynt yn ystod ein gwaith.

Rydym yn ffodus i dderbyn cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru a chyllid pellach gan Waterloo, gyda grantiau sydd ar ddod wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2025/2026 gan Sefydliad Esmee Fairbairn a ROSA UK.  Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae cyllid bob amser yn flaenllaw yn ein meddyliau.

Mae ein tîm staff wedi bod yn gweithio'n galed iawn i ddod o hyd i gyllid parhaus yn ogystal â chadw at eu hymrwymiadau arferol i gynnal gweithgareddau craidd yr elusen a hoffwn ddiolch iddynt am eu hymroddiad.

Gwneir pob ymdrech i gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaethau megis ymgynghoriaeth, hwyluso cyfranogiad y cyhoedd a chleifion mewn prosiectau ymchwil, a darparu hyfforddiant i gynyddu ein cronfeydd wrth gefn yn gymesur â'r cynnydd mewn costau gweithredol allanol a chostau byw. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Rheolwr yr Elusen yn cydweithio'n agos i sicrhau bod gennym lywodraethu cadarn, fel y mae'r holl Ymddiriedolwyr.

## Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol 2024-25

Dygodd y Sefydliad falans o £65,830 ymlaen, gan gynhyrchu incwm pellach o £100,765 ar gyfer 24-25, gostyngiad bach o £5,584 dros y cyfnod 23-24.

Hoffwn ychwanegu diolch i'r Ymddiriedolwyr, y Cyfarwyddwr, y Staff a'r Gwirfoddolwyr am eu cefnogaeth barhaus. Hebddynt hwy ni fyddem wedi cyflawni'r canlyniadau rhagorol hyn yn 24-25.



June Jeremy
Ymddiriedolwr/Trysorydd

# Datganiad Ariannol a Chyfrifon

Lluniwyd y canlynol ar gyfer cyfrifon y Sefydliad ac mae'n rhoi trosolwg o weithgarwch ariannol ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2024 – 31ain Mawrth 2025. Dygodd y Sefydliad falans o £65,830 ymlaen o 2023-24.

**Incwm**

Rhwng 1af Ebrill 2024 a 31ain Mawrth 2025, cynhyrchodd y sefydliad gyfanswm incwm o **£100,765** (£106,349 blwyddyn ariannol 23/24)**.** Roedd hyn yn ostyngiad bach o £5,584 dros gyfnod 2023/24 ac yn ganlyniad i newidiadau yn ein portffolio cyllid grant. Er i ni dderbyn llai o incwm gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024/25, llwyddom i gael grant gan Gronfa Fawr y Loteri.

Dyma ddadansoddiad o ffynonellau incwm:

| | |
|---|---|
| Codi Arian, Digwyddiadau a Rhoddion | £1,870 |
| Grantiau | £90,972 |
| Taliadau am Wasanaethau | £7,923 |
| **CYFANSWM** | **£100,765** |

Gellir gweld y cyfrannau cymharol o incwm yn y siart isod.




Derbyniwyd cyfanswm o £90,972 (£95,428 blwyddyn ariannol 23/24) mewn cyllid grant, yn cynnwys £43,348 (£85,458 blwyddyn ariannol 23/24) gan Lywodraeth Cymru; £25,400 (£9,970 blwyddyn ariannol 23/24) gan sefydliad Waterloo a grant newydd o £22,624 gan y Loteri Genedlaethol. O'r cyllid hwn, mae £12,884 yn cael ei ddwyn ymlaen i 2025/26.

Defnyddiwyd cyllid o'r grantiau ar gyfer costau cyflog ein cyfarwyddwr, rheolwr, cydlynydd ymgysylltu, a chydlynydd gwirfoddolwyr, yn ogystal â hyfforddiant a threuliau ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr, cyfieithu, a chostau TG.

**Gwariant**

Rhwng 1af Ebrill 2024 a 31ain Mawrth 2025, gwariwyd cyfanswm o £108,811 (£95,976 blwyddyn ariannol 23/24) i hyrwyddo ein nodau a'n hamcanion.

Mae dadansoddiad o'r gwariant fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Costau Staff | £76,265 |
| Costau AD / Cyflogres | £2,306 |
| Costau Ad-dalu Gwirfoddolwyr | £3,184 |
| Rhent | £4,444 |
| Yswiriant | £526 |
| Ffôn, offer TG a thrwyddedau | £5,996 |
| Hyfforddiant, Datblygu ac Ymgynghoriaeth | £1,990 |
| Cyfieithu | £9,201 |
| Argraffu a dylunio | £1,960 |
| Marchnata a chodi arian | £2,939 |
| **CYFANSWM** | **£108,811** |

Gellir gweld cyfrannau cymharol y gwariant yn y siart isod:



Gwelodd eleni gostau staff ychwanegol, a wnaed yn bosibl oherwydd ein cyllid gan y Loteri Genedlaethol. Mae hyn wedi arwain at fwy o gapasiti i gyflawni ein nodau a'n hamcanion, a'n gallu i sicrhau cyllid yn y dyfodol.

Balans cau'r arian oedd ar gael i'r sefydliad ar 31ain Mawrth 2025 oedd **£57,782.**

Mae'r dadansoddiad o gronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig a ddygwyd ymlaen ar 31ain Mawrth 2025 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfyngedig | £12,884 |
| Anghyfyngedig | £44,899 |
| **CYFANSWM** | **£57,783** |

# Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

**Barn sicrwydd archwilio**

Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
Blwch post 96
M-Sparc
Gaerwen
LL60 6AG

Rwyf wedi archwilio cyfrifon Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (y sefydliad/elusen) ar gyfer y cyfnod o 1af Ebrill 24 i 31ain Mawrth 25.
Gallaf gadarnhau bod yr adroddiadau ariannol a ddarparwyd ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 25 yn adlewyrchiad gwir a theg o weithgarwch ariannol y sefydliad yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd cwmpas yr archwiliad yn cynnwys gwirio'r balans agoriadol a ddygwyd ymlaen o flwyddyn ariannol 2023/24, cysoni incwm yn erbyn datganiadau banc, cynnal adolygiad sampl ar hap o wariant, a gwirio'r balans cau ar 31 Mawrth 2025.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol yn gywir ac yn rhifyddol gywir.

Karen Cockings (ACCA)

1af Rhagfyr 2025

CHARITY COMMISSION FOR ENGLAND AND WALES

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

## Adran A Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad i'r ymddiriedolwyr** | Enw'r Elusen<br>Triniaeth Deg i Fenywod Cymru | | |
| **Ar gyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben** | 2024-25 | **Rhif elusen (os o gwbl)** | 1191069 |
| **Gosod ar dudalennau** | 1<br>(cofiwch gynnwys rhifau tudalennau unrhyw ddalenni ychwanegol) | | |

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod (“yr Ymddiriedolaeth”) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31/04/2025.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr yr elusen, chi sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 (“y Ddeddf”).

Rwy'n adrodd mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad, rwyf wedi dilyn yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rydw i wedi cwblhau fy archwiliad. Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw ffordd berthnasol:

- ni chadwyd y cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nad oedd y cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad oedd y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys ynghylch ffurf a chynnwys cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater a ystyrir fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn galluogi dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod:** | Karen Cockings | **Dyddiad:** | 01/12/2025 |

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Karen Cockings |
| **Cymhwyster(au) proffesiynol perthnasol neu gorff (os o gwbl):** | Cyfrifydd Siartredig - ACCA |
| **Cyfeiriad:** | |
| | |
| | |

**Adran B** **Datgeliad**

Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion perthnasol sy'n peri pryder.

| | |
|---|---|
| **Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau y mae'r archwiliwr yn dymuno eu datgelu**. | Dim, does gen i ddim pryderon. |

FTWW

**Triniaeth Deg i Fenywod Cymru**
**Blwch post 96**
**M-Sparc**
**Gaerwen**
**LL60 6AG**

**Rhif Elusen: 1191069**